

Dywedwch wrthym Unwaith y Datganiad Preifatrwydd

Mae'r gwasanaeth hwn wedi ymrwmo i sicrhau bod eich preifatrwydd yn cael ei amddiffyn a gallwch fod yn sicr y bydd unrhyw wybodaeth a roddwch yn cael ei defnyddio yn unol â'r Datganiad Preifatrwydd hwn yn unig. Mae'r datganiad hwn yn esbonio sut y byddwn yn defnyddio ac yn diogelu unrhyw wybodaeth a roddwch i ni pan ddefnyddiwch y gwasanaeth hwn.

Y Gwasanaeth hwn

Darperir y gwasanaeth hwn gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) ar ran y Llywodraeth. Mae'r gwasanaeth yn wasanaeth gwirfoddol yr ydych wedi dewis ei ddefnyddio ac yn rhoi eich caniatâd i ddefnyddio'r data a ddarperir gennych. Gellir gweld manylion y Siarter Gwybodaeth Bersonol lawn ar gyfer DWP ar y Rhyngrwyd yn <https://www.gov.uk/government/organisations/department-for-work-pensions/about/personal-information-charter.cy>

Y Ddeddf Diogelu Data (DPA) a'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR)

Mae'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol yn rhan o'r drefn diogelu data yn y DU, ynghyd â Deddf Diogelu Data 2018 newydd (DPA 2018). DWP yw'r Rheolwr Data ar gyfer y gwasanaeth hwn o dan Ddeddf Diogelu Data 2018. Mae gennym ddyletswydd gyfreithiol i amddiffyn unrhyw wybodaeth a gasglwn gennych a byddwn yn prosesu'ch gwybodaeth yn unol â darpariaethau GDPR a'r Ddeddf.

Rydym wedi sicrhau bod y gwasanaeth hwn yn ddiogel ac yn cwrdd â holl safonau'r llywodraeth i atal unrhyw fynediad heb awdurdod i'r wybodaeth a roddwch i ni.

Pa wybodaeth ydyn ni'n ei chasglu?

Byddwn yn gofyn i chi am wybodaeth bersonol amdanoch; fel eich enw, cyfeiriad ac am bobl eraill y mae'r newid yn effeithio arnynt fel y gall y sefydliadau gymryd unrhyw gamau dilynol y mae angen iddynt eu gwneud. Byddwn ond yn gofyn i chi am wybodaeth sydd ei hangen ar y sefydliadau hynny, a byddwn ond yn trosglwyddo'r wybodaeth sydd ei hangen ar bob sefydliad. Gofynnir i chi gytuno i rannu'r wybodaeth hon gyda sefydliadau eraill. Os ydych chi'n darparu gwybodaeth ar ran rhywun arall, gofynnir i chi hefyd a oes gennych chi gytundeb i wneud hyn. Cyn i'r wybodaeth gael ei hanfon bydd cyfle i chi ei gwirio a gweld gyda phwy y bydd yn cael ei rhannu. Yn ogystal, caiff y data hwn ei ddileu yn dilyn cyfnod o amser sy'n gymesur â rhoi digon o amser i'r sefydliadau dan sylw fynd i'r afael â'r newid.

Sefydliadau eraill a fydd yn derbyn eich gwybodaeth

Mae gan y sefydliadau a fydd yn derbyn y wybodaeth rydych chi'n ei darparu eu polisiau preifatrwydd eu hunain sy'n cydymffurfio â Deddf Diogelu Data 2018, Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol a Deddf Hawliau Dynol 1998. Gellir cyrchu eu polisiau trwy'r Rhyngrwyd hefyd. Byddwn yn hapus i'ch helpu chi i ddod o hyd i'r rhain a'u darllen, os gofynnwch i ni wneud hynny.

Mae cytundebau ffurfiol ar waith hefyd rhwng pob un o'r sefydliadau hyn a'r Adran Gwaith a Phensiynau. Mae'r rhain yn esbonio'n fanylach sut y bydd eich gwybodaeth yn cael ei thrin yn gyfrinachol. Mae'r rhain yn enghreifftiau o sefydliadau eraill y gellir eu hysbysu o'r newidiadau a sut y gallai'r wybodaeth a ddarperir gennych gael ei defnyddio ganddynt:

Am hysbysiadau marwolaeth

- *Gall yr Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau (DVLA) ddefnyddio gwybodaeth yr ymadawedig i gau eu cofnod trwydded yrru a diweddarau eu cofnod cerbyd*

- *Gall Timau Budd-dal Tai Awdurdod Lleol a Gostwng Treth Cyngorau Lleol ddefnyddio gwybodaeth yr ymadawedig i gau eu hawliau am fudd-daliadau ac, mewn rhai achosion, ystyried pwy arall a allai fod yn gymwys ar yr aelwyd Ar gyfer hysbysiadau geni*

- *Gall Gwasanaethau Llyfrgell ddefnyddio gwybodaeth am enedigaethau i ddarparu gwybodaeth am wasanaethau ychwanegol sydd ar gael i blant cyn-ysgol*

Pethau eraill y gallwn eu gwneud gyda'ch gwybodaeth

O bryd i'w gilydd gallwn, gyda'ch caniatâd, gysylltu â chi naill ai dros y ffôn neu'n ysgrifenedig i ofyn eich barn am y gwasanaeth a gawsoch.

Gellir defnyddio'r wybodaeth rydych chi'n ei darparu i ni ar gyfer gwybodaeth ystadegol a fydd yn ein helpu i wella'r gwasanaeth. Ni fydd y wybodaeth ystadegol hon yn cynnwys unrhyw un o'ch manylion personol.

Ni fyddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth am resymau marchnata nac yn trosglwyddo'ch gwybodaeth i unrhyw drydydd partïon nad ydynt wedi'u nodi fel rhan o'r gwasanaeth hwn.

Mynediad i'ch gwybodaeth a chysylltu â ni

Os ydych yn dymuno gofyn i ni am eich gwybodaeth, neu os oes gennych ymholiad neu gŵyn am y polisi preifatrwydd hwn, gallwch gysylltu â ni trwy e-bost yn tellusonce.communications@dwp.gov.uk

Newidiadau i'r polisi preifatrwydd hwn

Os bydd y polisi preifatrwydd yn newid mewn unrhyw ffordd, byddwn yn diweddarau'r datganiad hwn i'w gwneud yn glir pa wybodaeth a gasglwn, sut rydym yn ei defnyddio ac o dan ba amgylchiadau y bydd yn cael ei rhannu.